


COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Mehefin 2013

Adolygwyd – Ionawr 2014



Cyflwyniad

Diben y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yw nodi sut mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ('y Comisiynydd') yn bwriadu cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau Gogledd Cymru er mwyn sicrhau cyfleoedd i gymryd rhan mewn materion plismona lleol.

Mae'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth yn nodi mewn mwy o fanylder y rhanddeiliaid allweddol a'r dulliau a ddefnyddir ac yn rhoi fframwaith wedi'i drefnu ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu.

Cefndir a chyd-destun

Cafodd Winston Roddick ei ethol ym mis Tachwedd 2012 fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf ar gyfer Gogledd Cymru. Roedd ei rôl yn disodli Awdurdod yr Heddlu ac fe'i chrëwyd gan Lywodraeth y DU er mwyn cyflwyno gwell atebolrwydd ar gyfer y system blismona.

Y Comisiynydd sy'n darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru, mae'n goruchwyllo'r ffordd mae'r Heddlu yn cael ei redeg ac yn dal y Prif Gwnstabl yn atebol am ddarpariaeth gweithredol ei gynllun Heddlu a Throsedd. Mae'n gyfrifol am sicrhau Heddlu effeithiol ac effeithlon sy'n sicrhau gwerth am arian i'r cyhoedd ac sydd, ar y cyfan, yn lleihau trosedd. Mae ei rôl yn cynnwys yr angen i osod praesept y treth cyngor a chyllideb yr Heddlu.

Mae dyletswydd statudol ar y Comisiynydd, yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, i gasglu a gwranddo ar safbwyntiau'r cyhoedd – gan gynnwys asiantaethau partner a dioddefwyr trosedd. Fel eu cynrychiolydd etholedig, mae ei rôl yn cynnwys ymgysylltu â'r holl bobl hynny sy'n byw ac yn gweithio yn ardal Heddlu Gogledd Cymru.

Ar ôl cael ei ethol, gwnaeth y Comisiynydd Ddatganiad Derbyn Swydd a nododd ei addewid i wasanaethu'r cyhoedd ac i sicrhau tryloywder penderfyniadau fel ei fod yn atebol i gymunedau Gogledd Cymru.

Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd, partneriaid a rhanddeiliaid allweddol, bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n rhoi amlinelliad o'i weledigaeth gyffredinol, sef bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi ac yn saff mewn mannau cyhoeddus. Mae'n nodi amcanion allweddol ar gyfer gallu cyflawni'r weledigaeth hon, sy'n tanategu cynllun gweithredol a gynhyrchir gan Heddlu Gogledd Cymru. Ym mhob Cynllun Heddlu a Throsedd, mae'r Comisiynydd yn mynd ati i gadarnhau ei ymrwymiad i gydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid ac i ymgysylltu â phobl Gogledd Cymru drwy gydol ei gyfnod yn y swydd.

Pam ymgysylltu?

Mae gan gyfathrebu ac ymgysylltu rolau canolog i'w chwarae o ran sicrhau y gall y Comisiynydd gyflawni ei ddyletswydd o weithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona drwy hysbysu pobl am bolisiau a gweithgareddau sy'n effeithio arnynt ac, yn hanfodol, eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Bydd dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu yn cynorthwyo ymrwymiad y Comisiynydd i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol.

Mae tystiolaeth i awgrymu mai lefel isel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sy'n bodoli am gyfrifoldebau'r Comisiynydd a'u perthnasedd i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu ac y maent yn atebol iddynt. Gall cyfathrebu ac ymgysylltu helpu i ddatrys yr her hon drwy sicrhau bod pobl Gogledd Cymru yn cael eu hysbysu'n llawn am rôl y Comisiynydd ac am y blaenoriaethau a'r amcanion sy'n arwain gweithgareddau plismona lleol. Gall dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu gynorthwyo o ran egluro sut mae'r rôl yn wahanol i Heddlu Gogledd Cymru. Drwy well dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth bydd ganddynt fwy o wybodaeth ac yn fwy tebygol o ymgysylltu â'r Comisiynydd a'r Heddlu.

Mae'n gyfrifoldeb statudol ar y Comisiynydd i ddod o hyd anghenion plismona ei gymunedau. Gallai'r rhain fod yn wahanol ar gyfer pob ardal, pob cymuned a hyd yn oed pob unigolyn. Rhaid i'r Comisiynydd ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu'r wybodaeth hon er mwyn iddo allu gosod y blaenoriaethau strategol perthnasol bob blwyddyn. Rhaid iddo ymgysylltu mor eang a phosibl gyda'r holl unigolion a sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau ei fod yn deall yr heriau allweddol sy'n bodoli yng Ngogledd Cymru fel y gall osod yr amcanion plismona cywir i allu delio â nhw.

Mae ymgysylltu yn dibynnu ar ddeialog ddwy ffordd rhwng y Comisiynydd, ei bartneriaid a phobl Gogledd Cymru. Bydd yn galluogi'r Comisiynydd i wrando ar eu safbwyntiau ac i ymateb iddynt yn unol a'i ddyletswydd statudol. Bydd dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu yn helpu i adeiladu a chynnal partneriaethau a pherthnasau. Byddant hefyd yn ehangu enw da, hyder a ffydd.

Amcanion Ymgysylltu

Nod Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Comisiynydd yw cefnogi ei weledigaeth strategol drwy gynnwys pobl Gogledd Cymru yn y broses o osod ac adolygu'r blaenoriaethau heddlu a throstedd ar gyfer yr ardal ac hefyd drwy gryfhau'r perthnasau rhwng partneriaid strategol.

Prif ffocws gweithgareddau ymgysylltu'r Comisiynydd fydd i:

- Hyrwyddo cyfranogiad y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Ngogledd Cymru i faterion a phenderfyniadau'n ymwneud â phlismona.
- Hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol.

Yr amcanion cyfathrebu ac ymgysylltu allweddol yw:

1. Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd – a sut mae'r cyfrifoldebau hynny yn wahanol i rai'r Heddlu – drwy ddarparu gwybodaeth glir, onest a pherthnasol drwy amrywiaeth o wahanol ddulliau.
2. Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o'r blaenoriaethau Heddlu a Throstedd a'r ffordd maent yn cael eu cyflawni drwy ddarparu gwybodaeth glir, onest a pherthnasol drwy amrywiaeth o wahanol ddulliau.
3. Sefydlu a chynnal ffyrdd addas i'r cyhoedd allu mynegi eu safbwyntiau ar blismona i'r Comisiynydd.

4. Sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod sut i ddarparu'r Comisiynydd ag adborth am faterion plismona yng Ngogledd Cymru.
5. Sefydlu a chynnal perthnasau gwaith cryf ac effeithiol gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, sector preifat a'r sector gwirfoddol.

Dull

Mae'r Comisiynydd yn atebol i holl bobl Gogledd Cymru – maent i gyd yn cael eu heffeithio gan benderfyniadau perthnasol i blismona a throedd; dylid eu gwneud nhw i gyd yn ymwybodol o sut y gallant ddylanwadu ar bolisi plismona lleol a dylid eu hannog i wneud hynny.

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i ymgysylltiad cynhwysol ac wedi'i rwymo gan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth gyflawni ei rôl. Yn fwy na hynny, bydd y Comisiynydd Heddlu a Throedd yn gweithredu o fewn deg egwyddor ymgysylltu Cyfranogaeth Cymru.

Bydd yn sefydlu dulliau cyfathrebu ar-lein a dulliau cyfathrebu eraill (megis gwefan, cyfryngau cymdeithasol, adroddiadau yn y wasg a'r cyfryngau darlledu) sy'n bellgyrhaeddol ac sy'n gallu torri ffiniau daearyddol a demograffig.

Mae cyfyngiadau amlwg i'r graddau y gall y Comisiynydd ymrwymo i ymgysylltu â phob unigolyn yng Ngogledd Cymru o gofio daearyddiaeth a phoblogaeth yr ardal. Er mwyn gorchfygu'r her o ymgysylltu ar y lefel hon, bydd y Comisiynydd yn ymgysylltu'n rheolaidd â nifer o'r rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli buddiannau a safbwyntiau'r cyhoedd ehangach a/neu grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau penodol. Bydd hyn yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r Comisiynydd rannu gwybodaeth am ddarpariaeth y Cynllun Heddlu a Throedd a gostyngiad troedd, cael adborth yn erbyn cynnydd gan gynrychiolwyr cymunedol ac adolygu blaenoriaethau a pherfformiad ei swyddfa a'r heddlu yn dilyn adborth o'r fath.

Bydd y Comisiynydd yn ymateb i faterion sy'n codi fel bo'n briodol a bydd yn cyfathrebu mewn modd rhagweithiol ac yn trefnu gweithgareddau ymgysylltu am faterion allweddol sydd wedi'u hamlygu yn y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Troeddau seiliedig ar y dioddefwr
- Troedd Cefn Gwlad
- Trais Rhywiol a Thrais Domestig
- Cyfiawnder Troeddol

Bydd y Comisiynydd yn dirprwyo gweithgareddau ymgysylltu, ble ystyrir hynny'n briodol, i'r Dirprwy Gomisiynydd a/neu Staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throedd. Bydd ymgysylltu ar y cyd â phartneriaid, yn enwedig Heddlu Gogledd Cymru, hefyd yn allweddol er mwyn cyflawni'r amcanion strategol. I'r diben hwn, bydd y Comisiynydd yn cytuno ar Femorandwm o Ddealltwriaeth gyda'r Heddlu mewn perthynas â chyfathrebu ac ymgysylltiad.

Tra bydd rhai agweddau o waith y Comisiynydd yn gyfrinachol, bydd yr holl gyfathrebu ac ymgysylltu yn cael ei gynllunio a'i ymgymryd ag ef mewn modd agored, tryloyw a chlir. Bydd yn cyhoeddi'r holl wybodaeth yn ôl yr angen yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a hynny ar y wefan a/neu drwy ddulliau priodol arall.

Cynulleidfa Darged

Mae'r 'cyhoedd' yn grŵp amrywiol iawn, mae'n cynrychioli amrywiaeth o wahanol hunaniaethau, diddordebau, agweddau, cefndiroedd, swyddi ac ardaloedd. Mae hyn yn golygu heriau penodol o ran cynllunio gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n berthnasol, yn ystyrion ac yn gynhwysol.

Wrth ymdrin â phwysigrwydd ymgysylltu cyhoeddus a'r cyfyngiadau ymarferol o sicrhau cyfathrebu effeithiol â'r cyhoedd yn ei gyfanrwydd, mae'r Comisiynydd wedi adnabod nifer o randdeiliaid allweddol lle gall rhaglen o gyfathrebu parhaus, wedi'i gynllunio gael ei weithredu'n realistig er mwyn gallu cyrraedd yr amrywiaeth ehangaf o unigolion a diddordebau â phosib.

Mae'r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys partneriaid strategol, sefydliadau 'ymbarél' cyhoeddus a gwirfoddol, yn ogystal ag unigolion sy'n cynrychioli'r cyhoedd a sydd â rôl i'w chwarae o ran lleihau trosedd, gwella diogelwch cymunedol a chefnogi dioddefwyr.

Rhestrir isod y grwpiau rhanddeiliaid allweddol, sydd wedi eu rhannu yn sefydliadau unigol neu'n 'grwpiau ymbarél, y bydd y Comisiynydd yn cyfathrebu â nhw'n rheolaidd. Mae'r rhain yn bartneriaid statudol tra bo eraill wedi'u rhestru oherwydd eu bod yn cynrychioli cymunedau ar draws Gogledd Cymru.

- Heddlu Gogledd Cymru
- Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru (x 6)
- Gweinidogion, Adrannau a chyrrff statudol Llywodraeth y DU
- Gweinidogion, Adrannau a chyrrff statudol Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolwyr Etholedig – gan gynnwys AS, AC, Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned
- Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (Cymru a'r DU)
- Gwasanaethau Brys
- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Mentrau Diogelwch Cymunedol
- Grwpiau Cymorth i Ddioddefwyr
- Grwpiau gwirfoddol a chymunedol
- Grwpiau gwledig/amaethyddol
- Grwpiau Busnes
- Sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ifanc
- Sefydliadau sy'n cynrychioli pobl hŷn
- Sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau lleiafrifol a dan anfantais
- Cyfryngau print, darlledu ac ar-lein

Cydraddoldeb a Chynhwysiad

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwmo i sicrhau bod ei arferion ymgysylltu a chyfathrebu yn addas ar gyfer anghenion holl gymunedau Gogledd Cymru gan gynnwys y rhai hynny a ellid fod wedi eu gweld yn draddodiadol fel rhai "anodd eu cyrraedd". Mae'r Comisiynydd yn mynd ati i ddatblygu gweithgareddau ymgysylltu er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a llais cymunedau lleiafrifol a dan anfantais yn cael eu clywed.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i ymgysylltu ac ymgynghori yn rheolaidd â'r grwpiau rhanddeiliaid a reolir gan Uned Amrywiaeth Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys y Grŵp Ymgysylltu LGBT, Grŵp Llywio Amrywiaeth, Grŵp Cyswllt Anabledd a Grŵp Ymgynghori Annibynnol. Gwahoddir mynychwyr y cyfarfodydd hynny i herio a chodi cwestiynau gyda'r Comisiynydd.

Mae'r Comisiynydd yn y broses o sefydlu Cytundeb partneriaeth â'r trydydd sector yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn darparu fframwaith ar gyfer gwella ymgysylltu, datblygu nodau ac amcanion ar y cyd, parch rhwng y naill a'r llall a dealltwriaeth a bydd yn cynorthwyo'r Comisiynydd a phartneriaid trydydd sector i wella safon y gwasanaeth a ddarperir i bobl Gogledd Cymru. Drwy'r cytundeb hwn mae'r Comisiynydd wedi cytuno ar isafswm y lefel o ymgysylltu â'r trydydd sector bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys mynychu cynhadledd ar gyfer pobl ledled yr ardal unwaith y flwyddyn ac ymweld ag o leiaf chwe sefydliad trydydd sector unigol sy'n cyflawni gwasanaethau'n ymwneud â lleihau trosedd a diogelwch cymunedol.

Bydd yr holl weithgareddau ymgysylltu yn glynu at yr egwyddorion a nodir ym Mholisi Cydraddoldeb y Comisiynydd a'r egwyddorion yn ei Bolisi Iaith Gymraeg ar y Cyd â Heddlu Gogledd Cymru.

Gwybodaeth Berthnasol

Yn unol â dyletswyddau statudol ac amcanion ymgysylltu, bydd y Comisiynydd yn hysbysu ac yn cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol mewn materion perthnasol i'r meysydd allweddol canlynol:

- Rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd
- Gweledigaeth a blaenoriaethau heddlu a throsedd ar gyfer Gogledd Cymru
- Penderfyniadau cyllidebol ac ariannol yn ymwneud â Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gogledd Cymru
- Adolygiadau polisi perthnasol a phenderfyniadau'n ymwneud â materion plismona strategol (bydd ymgysylltu mewn perthynas â materion gweithredol yn cael ei arwain gan yr Heddlu)
- Gwybodaeth yn ymwneud â pherfformiad, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth yr heddlu, lleihau trosedd a'r amcanion strategol a'r materion blaenoriaeth a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd
- Gwybodaeth am Gronfa'r Comisiynydd
- Sut i gysylltu â'r Comisiynydd a'i ddarparu ag adborth
- Apwyntiadau dyddiadur, gan gynnwys mynychu digwyddiadau cyhoeddus a chyfarfodydd

Dulliau

Fel y nodwyd yn y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu, bydd y Comisiynydd yn gweithredu cyfuniad o ddulliau er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol fel ei gilydd.

Drwy raglen o gyfathrebu parhaus, a fydd wedi'i dargedu (o ran maes pwnc, cynulleidfa a chymdogaeth) ac yn fwy hollgynhwysfawr, nod y Comisiynydd yw cyrraedd holl drigolion Gogledd Cymru un ai yn uniongyrchol neu drwy eu cynrychiolwyr.

Mae'r prif ddulliau yn cynnwys:

- Cyfarfodydd (mewnol ac allanol)

- Cylchlythyrau
- Gohebiaeth uniongyrchol (llythyrau a negeseuon e-bost)
- Cyfweiliadau â'r wasg ac erthyglau
- Digwyddiadau cyhoeddus
- Ymweliadau cymunedol
- Cerdded y strydoedd gyda Swyddogion Heddlu
- Cyfarfodydd atebolrwydd
- Cymorthfeydd Cyhoeddus
- Cyflwyniadau
- Gwefan
- Twitter (a chyfryngau cymdeithasol eraill fel bo'n briodol)
- Adroddiad Blynyddol
- Taflen Treth Cyngor
- Deunydd wedi'i argraffu (e.e. posteri, cardiau cyswllt)

Mesur Llwyddiant

Bydd llwyddiant y Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei fesur yn y pen draw yn erbyn meini prawf sy'n deillio o'r amcanion a amlinellir uchod, sef:

- Lefel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o rôl y Comisiynydd
- Lefel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r blaenoriaethau heddlu a throsedd a'r ddarpariaeth o wasanaethau
- Lefel o adborth, diddordeb ac ymglymiad y cyhoedd yng ngwaith y Comisiynydd
- Effeithiolrwydd gwaith partneriaeth

Bydd gwerthusiad o weithgareddau ymgysylltu yn cael ei ymgorffori yn fframwaith perfformiad ehangach y Comisiynydd sy'n cynnwys arolygon cyhoeddus a dadansoddiad o ddata meintiol. Yn ychwanegol at hynny, bydd sylw a geir yn y wasg a gan y cyfryngau'n cael ei fonitro a'i ddadansoddi fel adlewyrchiad a mesur pellach o agweddau rhanddeiliaid a'r cyhoedd.